



## Ysgol Deintyddiaeth Polisi Derbyn Israddedigion yn 2022

Mae'r polisi hwn yn manylu ar ofynion ychwanegol y cyrsiau canlynol a gynigir gan yr Ysgol Deintyddiaeth:

- Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol (BDS) (A200)
- BSc Therapi a Hylendid Deintyddol (B752)
- Diploma mewn Hylendid Deintyddol (DipHE) (B750)

Noder: Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â [pholisïau derbyn myfyrwyr y Brifysgol](#).

### Cynnwys

Gofynion mynediad.....	2
Gofynion mynediad ansafonol.....	2
Ailsefyll.....	2
Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau UCAS .....	2
Y broses ddethol .....	2
Atodiad A – Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol (BDS) (A200) .....	3
Atodiad B – BSc Therapi a Hylendid Deintyddol (B752).....	4
Atodiad C – Diploma mewn Hylendid Deintyddol (DipHE) (B750).....	5

## Gofynion mynediad

Mae'r gofynion mynediad arferol ar gyfer y rhai â chymwysterau Safon Uwch a BTEC a'r Fagloriaeth Ryngwladol yn cael eu cyhoeddi yn ein porwr cyrsiau ac ar wefan UCAS.

### Gofynion mynediad ansafonol

Ar gyfer y rhai nad oes ganddynt gymwysterau Safon Uwch neu BTEC na'r Fagloriaeth Ryngwladol, gweler ein rhestr o gymwysterau amgen derbyniol:

- [Atodiad A – Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol \(BDS\) \(A200\)](#)
- [Atodiad B – Diploma mewn Hylendid Deintyddol \(DipHE\) \(B750\)](#)
- [Atodiad C – BSc Therapi a Hylendid Deintyddol \(B752\)](#)

### Ailsefyll

Ar gyfer y cwrs BDS (A200), nid yw'r rhai sy'n ailsefyll yn cael eu hystyried, oni bai eu bod wedi cael cynnig amodol cadarn yn y flwyddyn flaenorol a heb fodloni amodau'r cynnig hwnnw.

## Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau UCAS

Ar gyfer y cwrs BDS, rhaid i chi gyflwyno cais llawn (gan gynnwys manylion unrhyw gymwysterau academiaidd a Saesneg presennol ac arfaethedig) drwy UCAS erbyn 6pm (amser y DU) ar 15 Hydref bob blwyddyn. Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau'n cael eu hystyried.

Ar gyfer y cyrsiau BSc a DipHE, rhaid i chi gyflwyno cais llawn (gan gynnwys manylion unrhyw gymwysterau academiaidd a Saesneg presennol ac arfaethedig) drwy UCAS erbyn 6pm (amser y DU) ar 26 Ionawr er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich ystyried. Bydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried os bydd lleoedd ar gael.

## Y broses ddethol

Os ydych yn bodloni'r gofynion mynediad sylfaenol ar Lefel 2 (TGAU fel arfer) a Lefel 3 (Safon Uwch fel arfer), rhoddir sgôr academiaidd i'ch cais. Os ydych yn ymgeisio i wneud y cwrs BDS, bydd Prawf Tueddfryd Clinigol y Brifysgol (UCAT) a'r Datganiad Personol hefyd yn cael eu hystyried wrth roi sgôr gyffredinol. Os ydych yn ymgeisio i wneud y cwrs BSc neu DipHE, bydd y Datganiad Personol hefyd yn cael ei ystyried wrth roi sgôr gyffredinol. Mae'r rhai sy'n sgorio uchaf yn cael eu gwahodd i gyfweiliad.

## Atodiad A – Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol (BDS) (A200)

<b>Mynediad i Addysg Uwch</b>	Ni dderbynnir cyrsiau mynediad ar gyfer y cwrs hwn.
<b>Graddedigion</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gradd anrhydedd 2:1</li> <li>• Graddau ABB ar lefel Safon Uwch neu lefel gyfatebol sy'n cynnwys Bioleg a Chemeg</li> <li>• Gofynion Lefel 2 (TGAU) i'w bodloni hefyd</li> </ul>
<b>Cymwysterau rhyngwladol</b>	<p>Gellir ystyried y rhai sydd â chymwysterau rhyngwladol.</p> <p>Dylent gyfeirio at y tablau ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau cyfatebol.</p> <p><a href="https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/students-applicants/admissions-policies">https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/students-applicants/admissions-policies</a></p> <p>Rhaid i'r gofynion o ran pynciau gael eu bodloni.</p>
<b>Cymwysterau eraill y DU</b>	<p>Gellir ystyried y rhai sydd â chymwysterau eraill neu gyfuniad o gymwysterau.</p> <p>Dylent gyfeirio at y wybodaeth ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth: <a href="https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying/policies-and-procedures/qualification-acceptance">https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying/policies-and-procedures/qualification-acceptance</a></p> <p>Rhaid i'r gofynion o ran lefel a phynciau gael eu bodloni.</p>
<b>Cymwysterau 'National 5', 'Higher' ac 'Advanced Higher' yr Alban</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gradd A mewn saith pwnc 'National 5' sy'n cynnwys Bioleg, Cemeg, Saesneg a Mathemateg <b>A HEFYD</b></li> <li>• Graddau AAAAA ar lefel 'Higher' sy'n cynnwys dau bwnc gwyddoniaeth (Bioleg, Cemeg neu Ffiseg) <b>A HEFYD</b></li> <li>• Graddau AA ar lefel 'Advanced Higher' sy'n cynnwys Bioleg a Chemeg</li> </ul>

## Atodiad B – BSc Therapi a Hylendid Deintyddol (B752)

<b>Mynediad i Addysg Uwch</b>	Cwrs sy'n seiliedig ar wyddoniaeth (Bioleg neu Fioleg Ddynol) 45 credyd ar Lefel 3 (30 credyd ar lefel Rhagoriaeth a 15 credyd ar lefel Teilyngdod)
<b>Graddedigion</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gradd anrhydedd 2:2</li> <li>• Graddau BCC ar lefel Safon Uwch neu lefel gyfatebol sy'n cynnwys Bioleg neu Fioleg Ddynol</li> <li>• Gofynion Lefel 2 (TGAU) i'w bodloni hefyd</li> </ul>
<b>Cymwysterau rhyngwladol</b>	<p>Ni ellir ystyried y rhai â chymwysterau rhyngwladol, oni bai bod statws ffioedd 'Cartref' wedi'i bennu.</p> <p>Dylent gyfeirio at y tablau ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau cyfatebol.</p> <p><a href="https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/students-applicants/admissions-policies">https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/students-applicants/admissions-policies</a></p> <p>Rhaid i'r gofynion o ran lefel a phynciau gael eu bodloni.</p>
<b>Cymwysterau eraill y DU</b>	<p>Gellir ystyried y rhai sydd â chymwysterau eraill neu gyfuniad o gymwysterau.</p> <p>Dylent gyfeirio at y wybodaeth ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth: <a href="https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying/policies-and-procedures/qualification-acceptance">https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying/policies-and-procedures/qualification-acceptance</a></p> <p>Rhaid i'r gofynion o ran lefel a phynciau gael eu bodloni.</p>
<b>Cymwysterau 'National 5', 'Higher' ac 'Advanced Higher' yr Alban</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gradd C mewn pum pwnc 'National 5' sy'n cynnwys Saesneg a Bioleg <b>A HEFYD</b></li> <li>• Graddau CC ar lefel 'Advanced Higher' sy'n cynnwys Bioleg <b>A HEFYD</b></li> <li>• Gradd C mewn pwnc arall ar lefel 'Advanced Higher' <b>NEU</b> raddau CC ar lefel 'Higher' <b>NEU</b> gyfuniad o gymwysterau 'Advanced Higher' a 'Higher' (rhaid cael graddau BBB ar lefel Safon Uwch a bodloni'r gofynion o ran pynciau)</li> </ul>

## Atodiad C – Diploma mewn Hylendid Deintyddol (DipHE) (B750)

<b>Mynediad i Addysg Uwch</b>	Cwrs sy'n seiliedig ar wyddoniaeth (Bioleg neu Fioleg Ddynol) 45 credyd ar Lefel 3 (30 credyd ar lefel Teilyngdod a 15 credyd ar lefel Rhagoriaeth)
<b>Llwybr i Hylendid Deintyddol</b>	Yn amodol ar sicrhau 60 credyd ar y Llwybr i Hylendid Deintyddol Graddau A i C mewn pum pwnc TGAU sy'n cynnwys Saesneg/Cymraeg (neu bynciau cyfatebol)
<b>Graddedigion</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gradd anrhydedd 2:2</li> <li>• Graddau CC ar lefel Safon Uwch neu lefel gyfatebol sy'n cynnwys Bioleg neu Fioleg Ddynol</li> <li>• Gofynion Lefel 2 (TGAU) i'w bodloni hefyd</li> </ul>
<b>Cymwysterau rhyngwladol</b>	<p>Ni ellir ystyried y rhai â chymwysterau rhyngwladol, oni bai bod statws ffioedd 'Cartref' wedi'i bennu.</p> <p>Dylent gyfeirio at y tablau ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau cyfatebol.</p> <p><a href="https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/students-applicants/admissions-policies">https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/students-applicants/admissions-policies</a></p> <p>Rhaid i'r gofynion o ran lefel a phynciau gael eu bodloni.</p>
<b>Cymwysterau eraill y DU</b>	<p>Gellir ystyried y rhai sydd â chymwysterau eraill neu gyfuniad o gymwysterau.</p> <p>Dylent gyfeirio at y wybodaeth ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth: <a href="https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying/policies-and-procedures/qualification-acceptance">https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying/policies-and-procedures/qualification-acceptance</a></p> <p>Rhaid i'r gofynion o ran lefel a phynciau gael eu bodloni.</p>
<b>Cymwysterau 'National 5', 'Higher' ac 'Advanced Higher' yr Alban</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gradd C mewn pum pwnc 'National 5' sy'n cynnwys Saesneg a Bioleg <b>A HEFYD</b></li> <li>• Graddau AA ar lefel 'Higher' sy'n cynnwys Bioleg <b>NEU</b> gyfuniad o gymwysterau 'Advanced Higher' a 'Higher' (rhaid cael graddau CC ar lefel Safon Uwch a bodloni'r gofynion o ran pynciau)</li> </ul>